**GRŴP FFRAMWAITH IECHYD A LLES ANIFEILIAID CYMRU**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 8 Mawrth 2019**

**Yn bresennol:**

Stephen James (SJ) - *Cadeirydd*
Abi Reader (AR)
David Davies (DD)
Ifan Lloyd (IL)
Moss Jones (MJ)
Paula Boyden (PB)

**Llywodraeth Cymru:**

| | |
|---|---|
| Christianne Glossop (CG) | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Emily Lay (EL) | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Sarah Nicol-Hughes (SNH) | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Laura Hughes (LH) | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Gavin Watkins (GW) *Rhan o'r cyfarfod* | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Sian Timms (ST) *Rhan o'r cyfarfod* | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Estavao Simoes (ES) *Rhan o'r cyfarfod* | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Phil Roberts (PR) *Rhan o'r cyfarfod* | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Neil Roberts (NR) *Rhan o'r cyfarfod* | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |

**Ymddiheuriadau:**

Jenny Gibbons (JG) – *Deialu yn Eitem 4*

**Eitem 1 ar yr Agenda: Croeso (SJ)**

1. Croesawodd SJ bawb i gyfarfod cyntaf 2019, a gofynnodd i bawb a oedd yn bresennol gyflwyno'u hunain.

2. Cadarnhaodd SJ mai'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12.12.18 oedd un olaf Jo Price a'i bod bellach wedi gadael y grŵp. Cynhaliwyd cyfweliadau i lenwi ei swydd ddechrau mis Chwefror ac rydym bellach wrthi'n cael caniatâd y Gweinidog i benodi aelod newydd. Gofynnodd CG inni ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw hyn wedi'i gymeradwyo eto a dywedodd y dylid cyflymu'r broses.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu o 12 Rhagfyr (SJ)**

3. Cadarnhaodd SJ gofnodion y cyfarfod diwethaf.

4. Mae ffigurau profion BVD wedi'u dosbarthu, fodd bynnag, hoffai'r grŵp wybod pa gyfran o'r fuches genedlaethol sydd wedi cael y prawf sgrinio, ac nid dim ond canran y buchesi gwartheg yng Nghymru. Mae angen un gronfa ddata a all ddarparu'r data hwn, yn hytrach na cheisio cyfuno nifer o wahanol daenlenni. Awgrymodd CG y gallai hwn fod yn brosiect delfrydol i fyfyriwr - mae gan Brifysgol Abertawe adran wybodeg sydd â

chryn arbenigedd, ac mae Coleg Brenhinol y Milfeddygon yn gweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth, a gellid defnyddio'r ddwy.

5. Bu'r grŵp yn trafod a oes cysylltiad rhwng lloi sy'n cael eu gwaredu ar y fferm a chyfyngiadau TB. Gofynnodd AR pam nad ydym yn gwneud y cysylltiad â lladd-dai sydd am brynu'r lloi a'u magu. Bydd SJ, DD ac AR yn bresennol yn y 'fforwm Lloi Gwryw' yn Cirencester ar 29.03.19 ac yn cyfarfod â Jenny Gibbons (AHBD).

6. Cadarnhaodd SJ ei fod bellach ar grŵp llywio'r 'Rhaglen Gwella Llaeth'.

## Eitem 3 ar yr Agenda: Diweddariad gan y Prif Swyddog Milfeddygol (CG)

7. Cyfeiriodd CG at yr adroddiad misol ar fonitro clefydau rhyngwladol (Chwefror 2019) a ddosbarthwyd yn flaenorol. Ar hyn o bryd mae clwy Affricanaidd y moch yn weithredol yn Nwyrain Ewrop mewn moch domestig a phoblogaethau baeddod gwyllt, a hefyd mewn baeddod gwyllt yng Ngwlad Belg. Mae achosion o fath 8 o'r Tafod Glas wedi'u cofnodi yn Ewrop eleni hefyd ac rydym yn cadw golwg ar hyn.

8. Cafwyd ymateb delfrydol gan y diwydiant rasio ceffylau i'r achosion o ffliw ceffylau. Nid yw pob un o'r brechlynnau sy'n cael eu defnyddio yn diogelu rhag y straen hwn o'r ffliw ac felly rydym yn gweithio gyda'r diwydiant fferyllol ar hyn. Roedd CG wedi cwrdd â Chymdeithas Sioe Frenhinol Cymru (RWAS) i sicrhau y bydd rhagofalon addas yn eu lle. Gellir defnyddio trefniadau tebyg i'r rhai a roddwyd ar waith ar gyfer achosion diweddar o'r ffliw adar - e.e. sicrhau bod pob anifail yn ffit ac yn iach cyn teithio i faes y sioe. Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i'r Sioe frechu ceffylau yn erbyn y ffliw, ond mae'r Gymdeithas yn cysylltu â chymdeithasau sioeau eraill a'u cynghorwyr milfeddygol er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen.

9. Bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ar TB ddiwedd Ebrill, gan roi diweddariad yn dilyn ei datganiad ym mis Hydref 2017, ac wrth baratoi ar gyfer hyn rydym wedi bod yn adolygu ein cyfathrebu ynghylch y rhaglen TB. Dywedodd CG fod angen i ni ystyried goblygiadau ymarferol cyfyngiadau TB a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar iechyd meddwl ffermwyr a'u teuluoedd. Cynhelir cynhadledd TB yn ddiweddarach eleni gan y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer ymchwil TB newydd yn Aberystwyth ar gyfer milfeddygon a ffermwyr

10. Rhoddodd CG ddiweddariad ar y cynlluniau ar gyfer Brexit, a dywedodd mai ein ffocws yw sicrhau ein bod yn barod os bydd senario dim cytundeb. Er enghraifft, byddwn angen rhagor o filfeddygon sydd wedi'u hyfforddi mewn 'Tystysgrifau Iechyd Allforio' a'r cynnydd disgwyliedig yn y galw. Mae'r Gweinidog wedi sicrhau bod arian ychwanegol ar gael ar gyfer hyn o Gronfa Bontio'r UE. Dywedodd IL fod nifer cadarnhaol yn y maes wedi manteisio ar yr hyfforddiant er bod rhai milfeddygon yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r amser i wneud y gwaith cwrs angenrheidiol i gwblhau'r hyfforddiant erbyn y dyddiad cau ar ddiwedd mis Mawrth.

11. Mae'r DU yn cynnal trafodaethau â'r UE ynghylch gwneud cais am statws 'Trydedd Wlad'; bydd hyn yn golygu cysoni ein deddfwriaeth â deddfwriaeth yr UE yn ddeinamig, am gyfnod o 9 mis (o leiaf).

12. Rhoddodd CG drosolwg o waith arall sy'n cael ei wneud gan OCVO; mae gwerthu anifeiliaid anwes drwy drydydd parti yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, mae'r Bil

Syrcas yn mynd rhagddo'n dda a dylai gael Cydsyniad Brenhinol yn 2020 yn unol â'r targed; ac mae gwaith yn parhau ar Arddangosfeydd Teithio o Anifeiliaid.

## Eitem 4 ar yr Agenda: Difa Lloi Gwryw Llaeth (JG)

13. Ni lwyddodd JG i roi diweddariad a bydd yn ad-drefnu ar gyfer cyfarfod mis Mehefin.

## Eitem 5 ar yr Agenda: Prosiect Fferm Laeth Strategol (PR)

14. Rhoddodd PR ddiweddariad ar y prosiect Fferm Laeth Strategol, sef prosiect 5 mlynedd sy'n ceisio defnyddio rhai o'r ffermydd gorau yng Nghymru i ledaenu negeseuon allweddol a rhannu arferion gorau. Ceir 9 fferm a ariennir gan ardollau, wedi'u lleoli ledled Cymru, ac mae pob fferm a ddewiswyd yn berfformwyr gorau sy'n gweithredu naill ai system loia bloc tynn (gwanwyn neu hydref) neu system loia gydol y flwyddyn.
15. Tynnodd SJ sylw at yr angen i gysoni'r prosiect hwn â'r gwaith ar AMR, a chroesawodd y prosiect o safbwynt iechyd a lles anifeiliaid.
16. Rhoddodd PR drosolwg byr o'r gwaith dofednod y mae'n ei arwain hefyd. Un ffocws allweddol ar hyn o bryd yw cynnal dadansoddiad o effaith amgylcheddol unedau buarth. Mae angen cydbwyso materion amgylcheddol gyda lles. Dywedodd AR fod y diweddariad am ddofednod diweddaraf gan yr NFU yn tynnu sylw at y ffaith fod y farchnad cynhyrchwyr buarth yng Nghymru yn orlawn a bod hyn wedi achosi problem lles gydag ôl-groniad o 2-3 mis ar gyfer lladd adar.

## Eitem 6 ar yr Agenda: Diweddariad AMR (GW)

17. Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch llywodraethu grŵp cyflenwi AMR newydd a sut byddai'n rhyngwynebu â Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Rhoddodd GW drosolwg o aelodaeth arfaethedig ac roedd rhai pryderon ynghylch maint y grŵp. Cadarnhaodd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru eu bod yn fodlon cymeradwyo mewn egwyddor ond y byddai angen trafod y strwythur a'r aelodaeth ymhellach.

## Eitem 7 ar yr Agenda: Cronfa Ddata Amlrywogaeth (LH)

18. Amlinellodd LH y rhesymeg dros ddatblygu un system adnabod ar gyfer Cymru, i ddisodli'r systemau presennol (ar draws y DU, 4 ar gyfer defaid a 2 ar gyfer gwartheg a moch), yn dilyn penderfyniad Gweinidogol ym mis Rhagfyr 2018, gan adeiladu ar Rifau Adnabod Electronig Cymru. Bydd y system newydd yn helpu'r gallu i olrhain ac yn ei gwneud yn bosibl i fonitro, targedu a dileu clefydau yn gyflymach.
19. Rhannwyd yr amserlenni ar gyfer datblygu a gweithredu; bydd y Gronfa Ddata Amlrywogaeth yn cael ei lansio ym Mehefin 2020 ar gyfer gwartheg a defaid a bydd moch yn dilyn yn fuan wedi hynny. Bydd ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei lansio ym mis Mai/Mehefin 2019 ar ddiweddaru cofnodion Adnabod a Symud Gwartheg i gynnwys y gofynion tagio electronig ar gyfer gwartheg.

20. Pwysleisiodd y grŵp bwysigrwydd cynnwys data ar iechyd anifeiliaid a'r defnydd o feddyginiaethau yn y gronfa ddata, a gofynnodd i LH roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn y cyfarfod nesaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin.

**Eitem 8 ar yr Agenda: Trafodaeth ar Flaenoriaethau ar gyfer 2019-20 (EL)**

21. Tynnodd DD sylw at yr angen i ystyried 'Ymgynghoriad Brexit a'n Tir', gan sicrhau bod cynlluniau Llywodraeth Cymru a nwyddau cyhoeddus yn gwneud iechyd a lles anifeiliaid yn rhan annatod o bob cynllun y maen nhw'n ei ddatblygu.

22. Daethpwyd i gytundeb ynghylch strwythur y cynllun gweithredu; awgrymwyd 4 prif adran; Cynllunio iechyd anifeiliaid; Atal clefydau; Dileu clefydau; a defnyddio meddyginiaethau'n gyfrifol.

**Eitem 9 ar yr Agenda: UNRHYW FATER ARALL (SJ)**

23. Trafodaeth ynghylch ymateb i sawl ymgynghoriad. Cytunodd y grŵp i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar werthu drwy drydydd parti (ni fyddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaethau nac yn cyfrannu at baratoi'r ymateb hwn).

24. Atgoffwyd aelodau o'r angen i gyflwyno unrhyw hawliadau teithio a chynhaliaeth sy'n ddyledus cyn gynted â phosibl, er mwyn gallu eu talu cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

25. Dywedodd CG, ar ôl penodi aelod newydd, y byddai angen i ni ystyried sut caiff gwaith ei flaenoriaethu ymysg aelodau a nodi arweinwyr allweddol ar gyfer meysydd penodol.

26. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 18 Mehefin 2019.

**CAU**